*Y Cabinet a'r Cygor yn unig*
Dyddiad cymeradwyo gan y Swyddog Monitro:
Dyddiad cymeradwyo gan y Swyddog Adran 151:

| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | **Cabinet** |
| Dyddiad y cyfarfod: | **4ydd Hydref 2023** |
| Pwnc yr Adroddiad: | **Adroddiad Cynnydd Chwarterol CS092 Cynllun Gweithredu'r Ymchwiliad a'r Polisi Cymraeg yn y Gweithle** |
| Deiliad Portffolio: | **Cyng. S. Thomas, Arweinydd / Aelod Cabinet Trosolwg Corfforaethol a Pherfformiad** |
| Adroddiad wedi'i Gyflwyno gan: | **Sarah King, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Llywodraethu a Phartneriaethau** |

| Llwybr Adrodd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth** | **Tîm Arwain Corfforaethol** | **Deiliad Portffolio / Cadeirydd** | **Pwyllgor Archwilio Llywodraethu** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** | **Pwyllgor Craffu** | **Y Cabinet** | **Y Cyngor** | **Arall (nodwch)** |
| | 10.08.23 | | | | 14.09.23 | 04.10.23 | | |

1. **Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Pwrpas yr Adroddiad yw cyflwyno Adroddiad Cynnydd Chwarterol CS092 Cynllun Gweithredu'r Ymchwiliad a'r Polisi Cymraeg yn y Gweithle.

2. **Cwmpas a Chefndir**

*Adroddiad Cynnydd Chwarterol CS092 Cynllun Gweithredu'r Ymchwiliad*

2.1 Agorwyd ymchwiliad CS092 ("yr ymchwiliad") gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (SCyG) ym mis Tachwedd 2021 yn dilyn pryderon a godwyd yn ystod asesiad dilysu uniongyrchol ynghylch a oedd y Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran darparu gwasanaeth dros y ffôn Cymraeg.

2.2 Ym mis Ebrill 2022, rhoddodd y Cyngor ymateb cychwynnol i'r ymchwiliad, a oedd yn ei dro yn codi pryderon pellach o ran cydymffurfio o ran hyrwyddo gwasanaethau, asesu sgiliau iaith staff, darparu cyfleoedd hyfforddi ac asesu anghenion ieithyddol swyddi. Arweiniodd hyn at ehangu cylch gorchwyl yr ymchwiliad i gynnwys nifer o safonau gweithredu ychwanegol.

2.3 Ym mis Medi 2022, darparwyd penderfyniad terfynol ar yr ymchwiliad, yn unol ag Adran 77 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, i'r Cyngor. Roedd y penderfyniad yn amlinellu'r camau sydd eu hangen i gyrraedd cydymffurfiaeth a'r amserlenni cyflawni disgwyliedig. Gofynnodd hefyd i'r Cyngor fwrw ymlaen â dull sefydliadol (gan gynnwys fframwaith atebolrwydd a llywodraethu clir) i ddatblygu Cynllun Gweithredu, gyda dyddiad cau o 31 Ionawr 2023. Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu drafft terfynol i'r

Tîm Arwain Corfforaethol i'w ystyried a'i gymeradwyo ar 26ain Ionawr 2022. Cymeradwyodd SCyG yr adroddiad ym mis Mawrth 2023.

2.4 Mae'r Adroddiad Cynnydd Chwarterol CS092 (Atodiad 1) yn rhoi diweddariad ar weithredu'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun ers mis Mawrth 2023 tan ddiwedd mis Gorffennaf 2023.

2.5 *Polisi Cymraeg yn y Gweithle*
Ar 28 Mawrth 2023 derbyniodd y Cyngor Hysbysiad Gweithredu gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn egluro bod y Cyngor, yn ystod ei waith monitro cydymffurfiad â safonau, wedi methu â chydymffurfio â Safon 98. Mae Safon 98 yn gosod y gofyniad i lunio polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol i'r diben o hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith, y mae'n rhaid ei chyhoeddi ar y fewnrwyd hefyd.

2.6 Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn bodloni'r gofyniad hwn mae Polisi drafft Cymraeg yn y Gweithle wedi'i ddatblygu gan ystyried canllawiau gan SCyG yn ogystal ag ystyried arfer da gan gyrff cyhoeddus eraill o dan yr un ddyletswydd (Atodiad 2).

3. **Opsiynau ar gyfer Argymhelliad**

3.1 Ystyriodd y Tîm Arwain Corfforaethol yr Adroddiad Cynnydd Chwarterol CS092 (Atodiad 1) a'r Polisi Cymraeg yn y Gweithle (Atodiad 2) ar 10 Awst 2023.

3.2 *Rhoddodd y Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol ystyriaeth i'r adroddiad ar 14eg Medi 2023 ac argymhellodd Opsiynau 1a a 2a i'w cymeradwyo*

3.3 *Adroddiad Cynnydd Chwarterol CS092.*

**Opsiwn 1a**
Ystyried yr Adroddiad Cynnydd Chwarterol CS092 (Atodiad 1), a chefnogi dull gweithredu i'w gyflwyno i'r Cabinet.

**Opsiwn 1b**
Ystyried yr Adroddiad Cynnydd Chwarterol CS092 (Atodiad 1), a gwneud sylwadau/argymhellion ar gynnydd i'w cyflwyno i'r Cabinet

ac argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Cymraeg yn y Gweithle (Atodiad 2) a darparu unrhyw sylwadau

3.4 **Polisi Cymraeg yn y Gweithle**

**Opsiwn 2a**
Ystyried yr argymhelliad Polisi Cymraeg yn y Gweithle (Atodiad 2) i'w gymeradwyo gan y Cabinet i'w gyhoeddi.

**Opsiwn 2b**
Ystyried y Polisi Cymraeg yn y Gweithle (Atodiad 2) a gwneud sylwadau/argymhellion i'r Cabinet cyn ei gymeradwyo.

4. **Tystiolaeth o sut mae'r pwnc hwn yn cefnogi cyflawniad y Cynllun Corfforaethol / Cyfrifoldebau Statudol / Cynllun Llesiant Blaenau Gwent**

Ers 2016 mae gan y Cyngor ofyniad statudol i weithio yn unol â'n Hysbysiad Cydymffurfio â'r Iaith Gymraeg a osodwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, a ysgrifennwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau y methodd SCyG y Cyngor arnynt fel rhan o'r ymchwiliad diweddar, gan gynnwys y Cyngor yn datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith (Safon 98).

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cydnabod bod bodloni ein gofynion o ran y Gymraeg yn faes polisi allweddol a fydd yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei uchelgais.

5. **Goblygiadau yn Erbyn Pob Opsiwn**

5.1 ***Effaith ar y Gyllideb (effaith tymor byr a hirdymor)***

Gallai methu â chydymffurfio ag unrhyw safon iaith Gymraeg arwain at gosbau. Y ffigwr a ddyfynnwyd yw £5,000 am bob toriad.

5.2 ***Risg gan gynnwys Camau Lliniaru***
Mae risg i enw da'r Cyngor os na chaiff y cynllun gweithredu ei roi ar waith yn effeithlon, a chanfyddir nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â Safon 98.

5.3 ***Cyfreithiol***
Gall methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a nodir yn yr hysbysiad o benderfyniad sy'n gofyn am gynllun gweithredu arwain y Comisiynydd i wneud cais am orchymyn llys sy'n gofyn am gydymffurfiaeth.

5.4 ***Adnoddau Dynol***
Mae staff Datblygu Sefydliadol yn chwarae rhan allweddol yng ngweithrediad y cynllun hwn, gan weithio i gryfhau ystyriaeth y prosesau recriwtio o'r Gymraeg.

6. **Tystiolaeth Ategol**
Mae'r safonau canlynol wedi'u nodi ynghyd â chamau gweithredu i wella cydymffurfiaeth y sefydliad cyfan o fewn y cynllun:

- Safon 8
- Safon 11
- Safon 17
- Safon 81
- Safon 127
- Safon 130
- Safon 131
- Safon 132

- Safon 133
- Safon 136
- Safon 136a

Adroddiad ymchwiliad llawn a hysbysiad o benderfyniad ynghlwm. (Atodiad 3).

Hysbysiad Gweithredu Monitro ynglŷn â'r Polisi Cymraeg yn y Gweithle ynghlwm. (Atodiad 4).

6.1 ***Gwybodaeth a Data Perfformiad***
Manylir ar y camau gweithredu a gymerwyd i roi'r cynllun ar waith yn yr adroddiad cynnydd.

6.2 ***Canlyniad disgwyliedig i'r cyhoedd***
Bydd rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith yn effeithiol, wedi'i ategu gan adroddiadau cynnydd chwarterol, yn gwella ein cydymffurfiaeth â'r safonau darparu gwasanaethau.

6.3 ***Cynnwys (ymgynghori, ymgysylltu, cyfranogiad)***
Mae'r grŵp craidd a sefydlwyd i gefnogi gweithrediad y cynllun gweithredu yn cyfarfod bob 6 wythnos i fonitro cynnydd, a derbyniwyd y Polisi Cymraeg yn y Gweithle ganddynt am sylwadau.

6.4 ***Meddwl ar gyfer y tymor hir (cynllunio ymlaen llaw)***
Mae gofyniad statudol ar y Cyngor i weithio yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, bydd gweithredu a chynhyrchu Polisi Cymraeg yn y Gweithle yn cryfhau ein cydymffurfiaeth wrth symud ymlaen.

At hynny, mae gwella ein hystyriaeth o'r Gymraeg yn cyfrannu at y Strategaeth Hybu'r Gymraeg a nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ddarparu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

6.5 ***Ffocws Atal***
Bydd bodloni'r gofynion a osodwyd gan Safonau'r Gymraeg yn anelu at atal risg i enw da a risg ariannol.

6.6 ***Cydweithio/gweithio mewn partneriaeth***
Mae Blaenau Gwent yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos a rhanbarthol i gefnogi'r Cyngor i weithio yn unol â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys fforymau a rhwydweithiau partneriaeth rhanbarthol (er enghraifft, Rhwydwaith Cymraeg Blaenau Gwent, Rhwydiaith, Deddf ac ati).

6.7 ***Integreiddio (ar draws meysydd gwasanaeth)***
Drwy ystyried ymagwedd gorfforaethol tuag at y Gymraeg mae'r Cyngor yn dangos ei fod yn mabwysiadu ymagwedd integredig.

6.8 ***Datgarboneiddio a Lleihau Allyriadau Carbon***
Nid oes gan yr adroddiad hwn unrhyw oblygiadau uniongyrchol o ran datgarboneiddio neu leihau allyriadau carbon.

6.9 ***Asesiad Effaith Integredig (AEI)***
Mae'r adroddiad yn ystyried Cydraddoldeb drwyddo draw ac yn ceisio sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwerthfawrogi ac nad yw'n cael ei thrin yn llai ffafriol ar draws y Cyngor.

7. ***Trefniadau Monitro***

7.1 Mae Adroddiad Cynnydd Chwarterol Ymchwiliad CS092 a'r Polisi Cymraeg yn y Gweithle i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Trosolwg a Pherfformiad Corfforaethol a'r Cabinet.

**Dogfennau Cefndir /Cysylltiadau Electronig**

Atodiad 1: Adroddiad Cynnydd Chwarterol yr Ymchwiliad CS092
Atodiad 2: Polisi Cymraeg yn y Gweithle
Atodiad 3: Adroddiad Ymchwiliad Llawn SCyG
Atodiad 4: Hysbysiad Gweithredu Monitro SCyG (Polisi'r Gweithle)